Cytundebau
Mae'r cytundebau canlynol yn berthnasol i gysylltiad newydd:

A) Mae'r **CYTUNDEB CYFLENWAD** rhyngoch chi a'ch cyflenwr. Ceir ynddo'r manylion ynglŷn â'r cyflenwad trydan. **Dylech benodi eich cyflenwr trydan cyn gynted ag y bo modd, oherwydd mae'n rhaid iddynt wneud yr holl drefniadau ar gyfer cysylltu'r mesurydd(ion) a sicrhau trydan i'r cysylltiad. Ni allwch gael cyflenwad trydan oni bai eich bod wedi penodi cyflenwr.** Cewch wneud cytundeb cyflenwad gydag unrhyw gyflenwr trwyddedig.

B) Y CYTUNDEB GWEITHREDU MESURYDD – nid yw'n angenrheidiol ond ar gyfer y cyflenwadau mwy cymhleth a fesurir bob hanner awr. Bydd WPD yn hapus i osod pris cystadleuol am Wasanaethau Gweithredydd Mesurydd.

C) Mae'r **CYTUNDEB CYSYLLTU** rhyngoch chi a WPD, ac mae'n egluro oblygiadau'r ddwy ochr, a thelerau cysylltu i System Dosbarthu WPD. Byddwch yn cytuno i dermau Cytundeb Cysylltu Safonol WPD pan fyddwch yn cychwyn Cytundeb Cyflenwad gyda'ch cyflenwr penodedig. Mewn rhai achosion gall WPD ofyn i chi arwyddo Cytundeb Cysylltu sy'n benodol i'r safle.

Ch) Mae'r **CYTUNDEB MABWYSIADU** rhwng y cwsmer, darparwr annibynnol penodedig y cwsmer a WPD ac mae'n berthnasol pan wneir unrhyw waith y gellir cystadlu amdano gan rywun heblaw WPD. Yn y cytundeb hwn, eglurir o dan ba delerau ac amodau y bydd WPD yn mabwysiadu'r cysylltiad newydd a rhoddir manylion am oblygiadau, manylebau, indemniadau, atebolrwydd a threfniadau yswiriant.

Dogfennau Perthnasol Eraill:

Y Drwydded Dosbarthu Trydan ar gyfer Western Power Distribution (De Cymru) plc/ccc.
Deddf Trydan 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000)
Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002
Y Cod Dosbarthu
Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, ac ati 1974

Ar gael ar wefan WPD :

Datganiad o Sail Prisiau Cysylltu i System Ddosbarthu Trydan Western Power Distribution (De Cymru) ccc.

Dogfennau ar gystadleuaeth mewn cysylltu

Argymhelliad Peirianneg G81:-
Rhan 1 Dylunio a Chynllunio ar gyfer Tai Maes Glas/Tir Llwyd
Rhan 2 Manylion Defnyddiau ar gyfer Tai Maes Glas/Tir Llwyd
Rhan 3 Gosod a Chofnodion ar gyfer Tai Maes Glas/Tir Llwyd
Rhan 4 Dylunio a Chynllunio ar gyfer Llwythi Diwydiannol/Masnachol
Rhan 5 Manylion Defnyddiau ar gyfer Llwythi Diwydiannol/Masnachol
Rhan 6 Gosod a Chofnodion ar gyfer Llwythi Diwydiannol/Masnachol
Rhan 7 Gwaith Atgyfnerthu a Dargyfeirio y gellir Cystadlu amdano

Hefyd mae Atodiadau WPD ar gael i'w darllen ynghyd â'r dogfennau G81 uchod.

Llawlyfr Cwsmer WPD

Gwybodaeth

Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi ffonio ein Canolfan Ymholiadau Cwsmeriaid ar: **O845 601 3341**

Neu ysgrifennu at:

Cefnogaeth Ganolog
Western Power Distribution (De Cymru) ccc
Ffynnon Menter
Phoenix Way
Llansamlet
ABERTAWE
SA7 9HW

FFACS: 01792 312420

neu ewch i'n gwefan:
www.westernpower.co.uk

Western Power Distribution (De Cymru) ccc
Cofrestrwyd yng Nghymru Rhif 2366985
Swyddfa Gofrestredig
Avonbank, Feeder Road, Bristol BS2 0TB

WESTERN POWER DISTRIBUTION

Gwasanaethu Canolbarth a De Orllewin Lloegr a Chymru

Cysylltiadau Newydd i System Ddosbarthu Trydan Western Power Distribution yn Ne Cymru

Hydref 2011

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID CSE

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am wneud cysylltiad newydd i system ddosbarthu trydan Wester Power Distribution (WPD). Os dymunwch, gallwch chi fod yn gyfrifol am beth o'r gwaith y mae angen ei wneud i gael cysylltiad newydd, neu cewch adael y cyfan i WPD. Gallwch hefyd ddewis eich cyflenwr trydan a Gweithredwr mesurydd. Bydd ein llythyr cynnig yn nodi'r dewisiadau sydd gennych.

Y Broses Gysylltu

Dyma'r camau sylfaenol wrth wneud cysylltiad newydd i System Ddosbarthu WPD:



Cewch chi ddewis pwy fydd yn gwneud y gwaith yn ystod y cam adeiladu a phwy fydd yn gwneud y gwaith dylunio. Dylech gadw mewn cof y bydd yn rhaid i'r gwaith basio ein harchwiliad a'n prawf, a bod yn addas ar gyfer ei fabwysiadu fel rhan o system ddosbarthu trydan WPD. Pa bynnag opsiwn y byddwch yn ei ddewis, unwaith y bydd y manylion wedi'u cwblhau, byddwn yn paratoi ac yn anfon Cynnig ffurfiol atoch.

Gwaith y gellir cystadlu amdano

Mae hwn yn waith sy'n gallu cael ei wneud gan rywun ar wahân i WPD. Mae'n cynnwys dylunio, prynu deunyddiau ar gyfer ffurfio'r cysylltiad, paratoi'r safle, agor ffosydd ac adeiladu'r cysylltiad.

Mae'n bosibl cystadlu am rai elfennau o atgyfnerthu a gwyro rhwydwaith dosbarthu cyfredol WPD i gynnwys y cysylltiad newydd. Gallwn ddarparu manylion ar gais.

Mae cyfres o ddogfennau fframwaith cenedlaethol ac atodiadau lleol WPD wedi eu paratoi'n benodol ar gyfer cwsmeriaid sydd eisiau gwneud gwaith y gellir cystadlu amdano. Mae'n rhoi manylion ar gyfer gwaith dylunio, prynu deunyddiau a gosod a chofnodi asedau. (Gweler dogfennau eraill perthnasol).

Bydd y cysylltiad newydd (hyd at ddechrau gosod trydan i chi) yn dod yn rhan o system ddosbarthu trydan WPD cyn belled â bod canlyniadau'r archwiliad terfynol, y profi a'r cysylltu yn foddhaol. WPD fydd perchennog y cysylltiad newydd o hynny ymlaen a bydd yn cymryd cyfrifoldeb am weithredu, trwsio, cynnal a chadw ac amnewid (yn amodol ar unrhyw anghenion gwarant a geir yn y Cytundeb Mabwysiadu).

Bydd WPD yn rhoi amcanbris cystadleuol am wneud bob gwaith y gellir cystadlu amdano.

Gwaith na ellir cystadlu amdano

Gwaith yw hwn y mae'n rhaid iddo gael ei wneud gan WPD. Fel arfer mae'n cynnwys darparu gwybodaeth am y man cysylltu, cytuno ar y gwaith dylunio, cael hawl tramwy statudol, archwilio a'r profi terfynol a chysylltu i system ddosbarthu trydan WPD.

Mae dylunio gwaith atgyfnerthu system ddosbarthu trydan WPD i dderbyn y cysylltiad newydd yn waith na ellir cystadlu amdano.

Bydd yr holl waith a wneir gan WPD yn cael ei adlewyrchu yn y pris cysylltu.

Pris Cysylltu (Prisiau Sylfaenol)

Chi fydd yn talu hwn. Byddwn yn codi tâl arnoch am yr holl waith na ellir cystadlu amdano ac am unrhyw waith y gellir cystadlu amdano y byddwn ni'n ei wneud. Os byddwch yn defnyddio darparwr annibynnol i wneud gwaith y gellir cystadlu amdano, chi fydd yn gyfrifol am ei dalu.

Bydd rhai o'r prisiau am waith na ellir cystadlu amdano yn seiliedig ar yr amser a gymerwn, er enghraifft:

	Costau mynegol		
DYLUNIO:			
Cyswllt LV sengl	£88	i	£412
Cyswllt LV sengl (gan gynnwys gwaith HV)	£309	i	£412
Aml gyswllt LV (gan gynnwys gwaith HV)	£309	i	£412
Cyswllt HV sengl	£309	i	£1,302
CYMERADWYO'R DYLUNIO:			
Cyswllt LV sengl	£44	i	£208
Cyswllt sengl LV (gan gynnwys gwaith HV)	£156	i	£309
Aml-gyswllt LV (gan gynnwys gwaith HV)	£156	i	£309
Cyswllt HV sengl	£309	i	£536
CANIATÂD:			
Caniatâd cyfreithiol gn berchennog trydydd parti	£51	i	£1,48
ARCHWILIO			
Pris yr ymweliad (hyd at ac yn cynnwys gwaith HV)	£156	i	£195
PRAWF TERFYNOL A CHYSYLLTU:			
Gwasanaeth LV i'r *mains*	£148	i	£501
LV *mains* i'r *mains*	£246	i	£551
HV *mains*	£434	i	£2,515
GWYBODAETH PWYNT CYSWLLT:			
Domestig sengl (hyd at 15kVA)	£88	i	£177
Sengl, nid domestig (hyd at 45kVA)	£88	i	£208
Cysylltiad LV gyda chyfanswm llwyth o hyd at 250kVA LV	£208		
Cyswllt uwch na 250kVA a hyd at 1MVA ar LV	£309		
Cyswllt uwch na 250kVA a hyd at 1MVA ar HV	£309		

Dangosol yw'r prisiau uchod yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys costau hynny o ddarparu a gosod asedau cysylltu fel ceblau tanddaear a'r is-orsaf.

Nid yw'r costau uchod yn adlewyrchu costau cysylltiadau dros 1 MVA neu lle mae angen EHV (foltedd uchel iawn). Costau ar gais.

Pris Gweithredu, Trwsio a Chynnal a Chadw

Fel arfer, adenillir y gost trwy'r prisiau a godir gan eich cyflenwr trydan penodedig, fel rhan o'ch bil chwarterol neu fisol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, pan fydd cwsmer yn gofyn am lefel uwch o sicrwydd nag a ddarperir yn arferol, mae'n bosibl y bydd WPD yn codi tâl ychwanegol ar gyfer y costau hynny na fydd yn cael eu hadennill drwy brisiau trydan.

Mae WPD wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Os nad ydych yn hapus gyda'n gwasanaeth ffoniwch ein Canolfan Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0845 601 3341.** Os na allwn ddatrys eich problem bydd yn cael ei basio ymlaen at Reolwr fydd yn ymchwilio i'ch cwyn.

Am fwy o wybodaeth am ein trefn delio â chwynion a dadleuon ewch i'n gwefan; www.westernpower.co.uk.

Os na ellir dod i gytundeb â WPD mewn cyfnod rhesymol yna gallwch fynd â'ch dadl ymhellach.

Os yw'r ddadl yn ymwneud â chartref neu fusnes bach gallwch gyfeirio'r mater at yr Ombwdsman Ynni am benderfyniad. Mae'r gwasanaeth datrys dadleuon yma'n annibynnol ac yn rhad ag am ddim.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn ewch i wefan yr Ombwdsman Ynni; www.energy-ombudsman.org.uk

Pan nad yw'n addas i'r Ombwdsman Ynni ddatrys dadl, gall y naill ochr neu'r llall ofyn am setliad gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan.

Am fwy o wybodaeth ar benderfyniadau ewch i wefan Ofgem;